# Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 2086A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

# Cynnwys

Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich Cyfrifon. Mae rhai materion y mae angen rhoi gwybod ichi amdanynt cyn eu cymeradwyo.


Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Cyfrifon

Cyflwyniad 4

Effaith COVID-19 ar archwiliad eleni 4

Adroddiad archwilio arfaethedig 6

Materion Arwyddocaol 6

Argymhellion 7

Atodiadau

Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol 8

Atodiad 2 – Adroddiad Archwilio Arfaethedig 11

Atodiad 3– Crynodeb o Gywiriadau a Wnaed 15

# Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

## Cyflwyniad

1 Rydym yn crynhoi prif ganfyddiadau ein harchwiliad o'ch cyfrifon ar gyfer 2019-20 yn yr adroddiad hwn. Rydym eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) a'i thîm.

2 Mae'n ofynnol ichi baratoi cyfrifon ac rydym bellach wedi cwblhau archwiliad eleni'n sylweddol, er gwaethaf yr heriau a achoswyd gan bandemig Covid-19. Mae'n dystiolaeth sylweddol o ymrwymiad eich swyddogion eich bod wedi llwyddo i wneud hynny eleni yn wyneb yr heriau a achosir gan y pandemig hwn. Rydym yn eithriadol o ddiolchgar i'r swyddogion am eu proffesiynoldeb o ran y modd y gwnaethant ein cynorthwyo i gwblhau ein harchwiliad dan amgylchiadau mor anodd. Byddwn yn adolygu'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu o effaith y pandemig ar ein harchwiliad a pha un a oes unrhyw arferion arloesol y gallem eu mabwysiadu yn y dyfodol i wella ein gwaith.

3 Nid yw archwilwyr byth yn gallu rhoi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi'u datgan yn gywir. Yn lle hynny, rydym yn gweithio i lefel o 'berthnasedd'. Pennir y lefel hon o berthnasedd i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a allai beri fel arall i'r sawl sy'n defnyddio'r cyfrifon gael ei gamarwain.

4 Pennwyd lefel perthnasedd o £969,000 ar gyfer archwiliad eleni o'r prif ddatganiadau a lefel perthnasedd o £186,000 ar gyfer y Gronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân.

5 Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i'r darllenydd ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain, fel a ganlyn:

- Datgeliadau Partïon Cysylltiedig £10,000
- Cydnabyddiaeth ariannol uwch swyddogion £1,000

6 Yn ein barn broffesiynol ni, rydym wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith; rydym yn annibynnol arnoch chi; ac nid yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu mewn unrhyw ffordd. Nid oes unrhyw berthnasoedd rhyngom ni a chi a allai danseilio ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein tyb ni.

## Effaith COVID-19 ar archwiliad eleni

7 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith arwyddocaol ar bob agwedd ar ein cymdeithas ac mae'n parhau i wneud hynny. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith eich bod yn paratoi cyfrifon ac mae'n glod sylweddol i ymrwymiad eich tîm cyfrifon eich bod wedi llwyddo i wneud hynny eleni yn wyneb yr heriau a achosir gan y pandemig hwn. Rydym yn eithriadol o ddiolchgar i broffesiynoldeb y tîm o ran y modd y gwnaethant ein cynorthwyo ni i gwblhau ein harchwiliad dan amgylchiadau mor anodd.

8 Nid yw'n syndod bod y pandemig wedi effeithio ar ein harchwiliad ac rydym yn crynhoi'r prif effeithiau yn **Arddangosyn 1**. Ac eithrio lle'r ydym yn gwneud argymhellion yn benodol, darperir y manylder yn **Arddangosyn 1** er gwybodaeth yn unig i'ch helpu chi i ddeall effaith pandemig COVID-19 ar broses archwilio eleni.

**Arddangosyn 1 – effaith COVID-19 ar archwiliad eleni**

| | |
|---|---|
| **Amserlen** | Darparodd swyddogion y cyfrifon drafft wedi'u llofnodi ar ein cyfer ar 29 Mai 2020 a oedd yn gynharach na'r terfyn amser statudol, sef 31 Mai 2020. Rydym yn disgwyl y bydd eich adroddiad archwilio yn cael ei lofnodi erbyn 10 Tachwedd 2020 yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod Tân ar 9 Tachwedd 2020. Yn sgîl y cyfyngiadau symud a'r gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol fe wnaethom ohirio'r dyddiadau i aelodau'r cyhoedd arfer eu hawliau i archwilio'r cyfrifon. Mae'n bwysig bod aelodau'r cyhoedd yn gallu arfer yr hawliau hynny os ydynt yn dymuno. |
| **Llofnodion electronig** | O ystyried y gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol ar hyn o bryd, gall fod yn anodd llofnodi ac ardystio'r cyfrifon ar ffurf copi caled eleni. Mae'n debygol y bydd angen i ni ddefnyddio llofnodion electronig at y diben hwn. Byddwn yn cynnal cyswllt â'r rheolwyr i sicrhau bod trefniadau perthnasol ar waith. |
| **Dull o gynnal yr archwiliad a chael tystiolaeth archwilio** | Oherwydd mesurau cadw pellter cymdeithasol, mae staff Archwilio Cymru yn gweithio o bell, gartref ar hyn o bryd. O ganlyniad, fe fabwysiadom ni ffyrdd newydd o weithio:<br>• fe wnaethom fireinio ein canlyniadau archwilio i egluro'r gofynion o ran papurau gwaith;<br>• fe gynhaliom ni gyfarfodydd Skype rheolaidd gyda'r cyfrifwyr perthnasol yn y timau Cyllid trwy gydol yr archwiliad i drafod cynnydd a materion a oedd yn dod i'r amlwg;<br>• fe wnaethom sicrhau mynediad o bell i alluogi'r tîm archwilio i gael mynediad at systemau ariannol yr Awdurdod; ac<br>• fe wnaethom sefydlu porth diogel ar gyfer trosglwyddo ffeiliau o bell i rannu gwybodaeth yn ddiogel. |

9 Byddwn yn adolygu'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu ar gyfer ein proses archwilio o bandemig COVID-19 a pha un a oes arferion arloesol y gallem eu mabwysiadu yn y dyfodol i wella'r broses honno.

# Barn Archwilio Arfaethedig

10 Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch wedi rhoi Llythyr Sylwadau inni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn **Atodiad 1**.

11 Rydym yn cyhoeddi barn archwilio 'amodol' lle mae gennym bryderon perthnasol ynghylch rhai agweddau ar eich cyfrifon; fel arall rydym yn cyhoeddi barn ddiamod.

12 Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 2**. Mae'r adroddiad archwilio hefyd yn cynnwys Pwyslais ar Fater sy'n tynnu sylw at:

- Nodyn 33 'Trafodion sy'n ymwneud â buddiol ar ôl cyflogaeth' sy'n disgrifio cymalau ansicrwydd prisio yn yr adroddiadau prisio ar Gronfeydd Eiddo Cyfunol a ddelir gan Gronfa Bensiwn Clwyd.

13 Mae'r Llythyrau Sylwadau'n cynnwys rhai cadarnhadau y mae'n ofynnol i ni eu cael gennych chi dan safonau archwilio ynghyd â chadarnhad o wybodaeth benodol arall yr ydych wedi'i darparu ar ein cyfer yn ystod ein harchwiliad.

# Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad

## Camddatganiadau nas cywirwyd

14 Ni chanfuwyd unrhyw gamddatganiadau yn y cyfrifon, sy'n dal heb eu cywiro.

## Camddatganiadau a gywirwyd

15 Roedd camddatganiadau yn y cyfrifon yn wreiddiol sydd bellach wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr. Fodd bynnag, rydym ni'n credu y dylid dwyn y rhain i'ch sylw a chânt eu nodi gydag esboniadau yn **Atodiad 3.**

## Materion Arwyddocaol eraill sy'n codi o'r archwiliad

16 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion sy'n ymwneud â'r cyfrifon ac yn rhoi gwybod ichi am unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi. Roedd un mater sy'n codi yn y meysydd hyn eleni fel a ddangosir yn **Arddangosyn 2**:

**Arddangosyn 2 – materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad**

| Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad | |
|---|---|
| **Pwyslais ar fater – cronfeydd buddsoddi mewn** | Mae'r achos o bandemig COVID-19 wedi effeithio ar farchnadoedd ariannol a marchnadoedd eiddo byd-eang. Oherwydd amodau'r marchnadoedd hyn, mae cymalau |

| | |
|---|---|
| **eiddo sy'n gysylltiedig â'r gronfa bensiwn** | ansicrwydd prisio wedi cael eu cynnwys mewn adroddiadau prisio diwedd blwyddyn sy'n gysylltiedig â chronfeydd buddsoddi mewn eiddo Cronfa Bensiwn Clwyd. £127.5 miliwn yw cyfanswm gwerth y buddsoddiadau hyn ar 31 Mawrth 2020 ac mae £2 filiwn yw cyfanswm cyfran yr Awdurdod. |
| **McCloud/Sergeant: cynnig ar gyfer rhwymedïau ar ôl diwedd y flwyddyn** | Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl yn erbyn y Llywodraeth, sef bod newidiadau a wnaed i gynlluniau pensiwn yn gwahaniaethu yn erbyn grŵp o ddiffoddwyr tân a grŵp o farnwyr ar sail oedran. Cyfeirir at yr achosion hyn fel McCloud/Sergeant. Gallai costau darparu rhwymedïau ar gyfer cyflogeion yr effeithiwyd arnynt fod yn sylweddol. Y llynedd daethom i'r casgliad bod digon o dystiolaeth bod y dyfarniadau hyn yn berthnasol i'r Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Lol ac, yn seiliedig ar asesiad Adran Actiwari'r Llywodraeth o'r effaith, cafodd yr amcangyfrifon a oedd yn deillio o hynny eu cymhwyso i rwymedigaethau eich cynllun a chafodd eich datganiadau ariannol eu haddasu. Rhoddwyd manylion yn ein Hadroddiad ar yr Archwiliad o Gyfrifon 2018-19. Ers y dyfarniad hwnnw, mae'r Llywodraeth wedi bod yn ystyried rhwymedi ac ar 16 Gorffennaf 2020 cyhoeddodd gynnig ar gyfer ymgynghori. Er bod ansicrwydd ynghylch y rhwymedi arfaethedig o hyd, mae'n darparu tystiolaeth bellach o effaith debygol dyfarniad McCloud/Sergeant ar rwymedigaethau pensiwn. Darparodd actiwarïaid pensiynau i gyd asesiad eang o effaith bosibl y cynnig. Er nad oes disgwyl i'r effaith ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fod yn berthnasol, amcangyfrifwyd y byddai'r effaith ar y Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân yn lleihau'r rhwymedigaeth gyfan o ganlyniad i McCloud/Sergeant o £1.5 miliwn. O ganlyniad, cafwyd adroddiad actiwari wedi'i ddiweddaru a oedd yn ystyried effaith y rhwymedi arfaethedig ar y Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân, a chafodd y cyfrifon eu diweddaru. |

# Argymhellion

17 Mae'n bleser nodi bod yr Awdurdod wedi rhoi'r holl argymhellion a wnaethom yn dilyn archwiliad 2018-19 ar waith.

18 Yn 2019-20 nid oes unrhyw faterion sy'n ddigon arwyddocaol i deilyngu eu dwyn i'ch sylw er y byddwn yn trafod rhai mân faterion gyda swyddogion ac yn gwneud gwaith dilynol ar gynnydd yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol

Pennawd llythyr y corff a archwiliwyd

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

9 Tachwedd 2020

### Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2019-20

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 at ddiben mynegi barn ynglŷn â'u cywirdeb a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

### Sylwadau'r rheolwyr

#### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-20; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â'r rhain; a
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

### Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- Mynediad llawn at:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a

  - mynediad digyfyngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt.
- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll.
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac sy'n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd â phartïon cysylltiedig a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae tybiaethau arwyddocaol a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rhai a fesurwyd yn ôl gwerth teg, yn rhesymol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau camddatganiadau nas cywirwyd a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol ac ar y cyd, i'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd.

## Sylwadau gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Yr ydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Yr ydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan yr Awdurdod Tân ac Achub ar 9 Tachwedd 2020.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Yr ydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| Ken Finch | Y Cynghorydd Peter Lewis |
| Trysorydd | Cadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub |
| 9 Tachwedd 2020 | 9 Tachwedd 2020 |

# Atodiad 2

## Adroddiad archwilydd annibynnol arfaethedig Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

### Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

### Barn

Yr wyf wedi archwilio datganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad o Lifoedd Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-2020 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-2020.

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISA (UK)). Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol. Rwy'n annibynnol ar yr Awdurdod yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

### Pwyslais ar Fater – effeithiau Covid-19 ar brisiadau o asedau pensiwn eiddo

Tynnaf sylw at Nodyn 33 i’r datganiadau ariannol, sy’n disgrifio cymalau ansicrwydd prisio perthnasol yn yr adroddiad prisio ar Gronfeydd Eiddo Cyfunol, a ddelir gan Gronfa Bensiwn Clwyd. sy’n codi o amgylchiadau a achoswyd gan bandemig Covid-19. Nid yw fy marn wedi’i haddasu mewn perthynas â’r mater hwn.

### Casgliadau sy’n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i’w nodi o ran y materion canlynol y mae’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw’r swyddog cyllid cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu’r Awdurdod i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

### Gwybodaeth arall

Y swyddog cyllid cyfrifol sy’n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn y Datganiad Cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi’i chynnwys yn y Datganiad Cyfrifon ac eithrio’r datganiadau ariannol a’m hadroddiad i fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall er mwyn nodi anghysonderau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail yr wybodaeth a gefais wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol ymddangosiadol, ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

## Adroddiad ar ofynion eraill

### Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae’r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol ac mae’r Adroddiad Naratif wedi’i baratoi yn unol â’r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-20;
- Mae’r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau

ariannol ac mae’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi’i baratoi yn unol â’r canllawiau.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni’r wybodaeth a’r ddealltwriaeth am yr Awdurdod a’i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw’r datganiadau ariannol yn gyson â’r cofnodion a’r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Tystysgrif cwblhau’r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau’r archwiliad o gyfrifon yr Awdurdod yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau’r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen 11, y swyddog cyllid cyfrifol sy’n gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy’n rhoi darlun cywir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae’r swyddog cyllid cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu’r Awdurdod i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

### Cyfrifoldebau’r archwilydd am archwilio’r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol

pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
10 Tachwedd 2020

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

# Atodiad 3

## Crynodeb o Gywiriadau a Wnaed

Yn ystod ein harchwiliad canfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau chi dros y broses adrodd ariannol.

**Arddangosyn 3: crynodeb o gywiriadau a wnaed**

| Natur y cywiriad | Rheswm dros gywiro | Effaith |
|---|---|---|
| **Mae Nodyn 33 – Trafodion sy'n ymwneud â buddion ar ôl cyflogaeth wedi cael ei ddiwygio:**<br>• Mae IAS19 Addasiad i Gost Net y Gwasanaeth wedi cael ei ddiwygio o £2,294,000 i £744,000.<br>• Mae Diffyg Pensiynau Net wedi cael ei ddiwygio o £313,448,000 i £312,118,000. | Mae'r Awdurdod Tân wedi cael Datganiad Actiwaraidd wedi'i ddiweddaru gan Adran Actiwari'r Llywodraeth yn dilyn y rhwymedi ar ôl diwedd y flwyddyn mewn ymateb i ddyfarniad McCloud/Sergeant. O ganlyniad mae ffigyrau addasu IAS19 wedi cael eu diwygio, a fydd yn ei dro'n cael effaith ar y datganiadau ariannol craidd. | • Mae'r datgeliad cyflogeion o fewn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wedi cael ei ddiwygio o £28,681,000 i £27,035,000.<br>• Mae'r Rhwymedigaeth Pensiynau o fewn y Fantolen wedi cael ei diwygio o £313,448,000 i £312,118,000.<br><br>Bu diwygiadau priodol hefyd o fewn y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad o Lifoedd Arian Parod, y Dadansoddiad Cyllido Gwariant a'r Gronfa wrth Gefn Pensiynau. |
| **Nodyn 25 – Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Swyddogion**<br>Mewn perthynas â'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol dros dro<br>• Mae'r cyflog wedi cael ei ddiwygio o £78,826 i £86,675 | Roedd cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol sy'n ymwneud â dyrchafiad dros dro wedi cael ei dosbarthu fel cyfraniad pensiwn yn hytrach na chyflog yn y nodyn datgelu. | Ni chafodd yr addasiad unrhyw effaith arall ar y datganiadau ariannol. Gofyniad datgelu yn unig. |

| Natur y cywiriad | Rheswm dros gywiro | Effaith |
|---|---|---|
| • Mae cyfraniadau pensiwn wedi cael ei ddiwygio o £29,331 i £21,534 | | |
| **Datganiad o Lifoedd Arian Parod**<br>• Mae Addasiadau ar gyfer Eitemau sydd wedi'u Cynnwys yn y (Gwarged) neu Ddiffyg net ar Ddarparu Gwasanaethau sy'n Weithgareddau Buddsoddi a Chyllido wedi cael ei ddiwygio o (£494,000) i (£360,000)<br>• Mae Gweithgareddau Buddsoddi wedi cael ei ddiwygio o £691,000 i £641,000. | Roedd eitemau nad ydynt yn arian parod a godwyd ar y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau wedi cael eu cynnwys yn anghywir o fewn y Llif Arian.<br><br>Roedd enillion o werthu eiddo, cyfarpar ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol wedi cael ei orddatgan o £50,000. | Roedd addasiadau cyfatebol wedi'u nodi yn Nodiadau 21 a 22 o fewn y datganiadau ariannol hefyd. |
| **Nodyn 8 – Gwariant ac Incwm Gweithredu Arall**<br>• Mae Elw neu Golled ar waredu asedau anghyfredol wedi cael ei ddiwygio o £27,000 i £135,000. | Roedd dau gerbyd a oedd â gwerth llyfr net cyfunol o £108,000 wedi cael eu datgydnabod.<br><br>Fodd bynnag, yn dilyn ymchwilio, cadarnhawyd fod y ddau gerbyd yma wedi'u gwaredu yn ystod 2018-19 a bod y driniaeth gyfrifyddu felly'n anghywir. | O fewn **Nodyn 11 – Eiddo, Cyfarpar ac Offer**<br><br>**Gwerth llyfr gros**<br>• Mae Datgydnabod – Gwarediadau wedi cael ei ddiwygio o £309,000 i £632,000.<br>• Mae Datgydnabod – Arall wedi cael ei ddiwygio o (£5,551,000) i (£5,228,000).<br>**Dibrisiant Cronnus**<br>• Mae Datgydnabod – Gwarediadau wedi cael ei ddiwygio o £259,000 i £474,000<br>• Mae Datgydnabod – Arall wedi cael ei ddiwygio o |

| Natur y cywiriad | Rheswm dros gywiro | Effaith |
| --- | --- | --- |
| | | (£5,102,000) i (£4,887,000). |
| **Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**<br>• Mae Cyfraniadau i (o) Gronfeydd wrth Gefn wedi cael ei ddiwygio o £1,121,000 i £1,050,000<br>• Mae Incwm wedi cael ei ddiwygio o (£2,692,000) i (£2,621,000) | Roedd anghysondeb rhwng y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn a'r datganiad o Gyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.<br><br>Roedd y Gwasanaeth Tân wedi rhoi cyfrif yn anghywir am arian y Fforwm Cydnerthedd Lleol a ddelir ar ran awdurdodau eraill fel cyfraniad i gronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, mae'r swm wedi'i glustnodi ar gyfer y Fforwm Cydnerthedd Lleol ac felly nid incwm y Gwasanaeth Tân ydyw. | £Dim<br>Gwall o ran cyflwyno oedd hwn a effeithiodd ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn |
| **Y Fantolen**<br>• Mae benthyca byrdymor wedi cael ei ddiwygio o £18,721,000 i £18,929,000<br>• Mae benthyca hirdymor wedi cael ei ddiwygio o £12,327,000 i £12,119,000 | Nid oedd y symiau yn y Fantolen yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r symiau a oedd yn cael eu datgelu yn Nodyn 12. | £Dim.<br>Ailddosbarthiad rhwng benthyca byrdymor a hirdymor yn y Fantolen oedd hwn. |
| **Nodyn 11 – Eiddo, Cyfarpar ac Offer**<br>• Mae'r colledion amhariad/gwrthdroadau a gydnabyddir yn y gronfa wrth gefn ailbrisiadau wedi cael ei ddiwygio o £0 i (£110,000) | Roedd yr amhariad ar dri ased wedi cael ei godi ar y datganiad o incwm a gwariant cynhwysfawr er bod balansau cysylltiedig ar y gronfa wrth gefn ailbrisio. Dylid bod wedi defnyddio'r rhain yn gyntaf, cyn bod unrhyw daliadau sy'n weddill yn cael eu codi wedyn | £Dim.<br>Ni chafodd yr addasiadau hyn unrhyw effaith ar sefyllfa cronfeydd wrth gefn wirioneddol yr Awdurdod Tân ond yn hytrach roeddent yn bwydo trwy'r Datganiad o Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn i mewn i gronfeydd |

| Natur y cywiriad | Rheswm dros gywiro | Effaith |
|---|---|---|
| • Mae'r colledion amhariad / gwrthdroadau a gydnabyddir yn y Gwarged/Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau wedi cael ei ddiwygio o (£156,000) i (£46,000)<br>• Cafodd cymaryddion 2018-19 eu diwygio hefyd. Gostyngodd y gronfa wrth gefn Ailbrisio, ac fe gynyddodd y Cyfrif Addasiad Cyfalaf o £1,610,000. | ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.<br><br>O ganlyniad, roedd balans y Gronfa wrth Gefn Ailbrisio wedi'i orddatgan, ac mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf felly wedi'i danddatgan.<br><br>Roedd angen addasiad tebyg i gymaryddion 2018-198 ar gyfer y Gronfa wrth Gefn Ailbrisio a'r Cyfrif Addasu Cyfalaf i gywiro ar gyfer amhariad hanesyddol nad oedd wedi cael ei wrthbwyso'n wreiddiol yn erbyn balansau cronfeydd wrth gefn ailbrisio. | wrth gefn annefnyddiadwy. |
| **Y Fantolen**<br>• Mae dyledwyr cyfredol wedi cael eu diwygio o £3,524,000 i £3,444,000<br>• Mae dyledwyr anghyfredol wedi cael eu diwygio o £0 i £80,000 | Roedd taliad rhag blaen wedi cael ei ddosbarthu'n anghywir fel ased byrdymor pan ddylai fod yn un hirdymor. | £Dim.<br>Ailddosbarthiad rhwng dyledwyr byrdymor a hirdymor yn y Fantolen oedd hwn. |
| **Nodyn 20 – Y Gronfa wrth Gefn Pensiynau**<br>• Mae Gwrthdroi Eitemau sy'n ymwneud â buddion ymddeol a ddebydwyd i Ddarparu Gwasanaeth yn y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wedi cael ei ddiwygio o (£18,012,000) i | Roedd addasiad actiwaraidd yn y gronfa bensiwn wedi cael ei gamddosbarthu. | £Dim.<br>Gwall dosbarthu yn y gronfa wrth gefn pensiynau yn y Fantolen oedd hwn. |

| Natur y cywiriad | Rheswm dros gywiro | Effaith |
|---|---|---|
| (£17,632,000) ac mae cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn wedi cael ei ddiwygio o £9,209,000 i £8,829,000.<br>• Mae ffigyrau cymharol 2018-19 wedi cael eu diwygio o (£28,224,000) i (£28,134,000) ac o £8,627,000 i £8,537,000 yn unol â hynny. | | |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.